OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 713

## Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

## RHAN 1

Cyffredinol

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010.

(2) Daw rheoliadau 1 i 26 i rym ar 1 Ebrill 2010 a daw'r rheoliadau sy'n weddill i rym ar 1 Gorffennaf 2010.

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall—

ystyr "apêl" ("*appeal*") yw apêl o dan—

(a) adran 16 (apelau : cyffredinol) o Ddeddf 1992;

(b) paragraff 3 o Atodlen 3 (cosbau) i Ddeddf 1992;

(c) rheoliadau a wnaed o dan adran 24 o Ddeddf 1992(**1**);

(ch) rheoliadau a wnaed o dan adran 55 o Ddeddf 1988(**2**);

(d) paragraff 4 o Atodlen 4A (rhybuddion i gwblhau) i Ddeddf 1988 (a elwir yn y Rheoliadau hyn yn "apêl yn erbyn rhybudd i gwblhau")(**3**);

(dd) paragraff 5C o Atodlen 9 (cosbau sifil) i Ddeddf 1988(**4**); ac

(e) adran 45 o'r Ddeddf Draenio Tir 1991(**5**);

ystyr "awdurdod bilio" ("*billing authority*") yw awdurdod bilio fel y'i diffinnir yn adran 1(2) o Ddeddf 1992;

ystyr "Cadeirydd" ("*Chairperson*") yw Cadeirydd y Tribiwnlys Prisio a benodir o dan reoliad 12 ;

ystyr "Cyngor Llywodraethu" ("*Governing Council*") yw Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio a sefydlir o dan reoliad 5;

(**1**) *Gweler* O.S. 1993/290.
(**2**) *Gweler* O.S. 2005/758 (Cy.63).
(**3**) Mewnosodwyd Atodlen 4A gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42), adran 139 ac Atodlen 5, paragraffau 36 a 79(3).
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 5C gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26), adran 72(1) a (4); a mewnosodwyd is-baragraff 5C(7) gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28), adran 220(1) ac Atodlen 16, paragraffau 2 a 5.
(**5**) 1991 p.59.

ystyr "cynrychiolydd rhanbarthol" ("*regional representative*") yw cynrychiolydd rhanbarthol a benodir o dan reoliad 13;

ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

ystyr "hen Dribiwnlys" ("*old Tribunal*") yw tribiwnlys prisio a oedd yn bodoli yng Nghymru yn union cyn 1 Gorffennaf 2010;

ystyr "hen Wasanaeth"("*old Service*") yw'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru a sefydlwyd gan Reoliadau 2005;

ystyr "Llywydd" ("*President*") yw Llywydd y Tribiwnlys Prisio, a benodir o dan reoliad 11;

ystyr "prif weithredwr" ("*chief executive*") yw'r person a benodir o dan reoliad 15;

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005(**6**); ac

ystyr "Tribiwnlys Prisio" ("*Valuation Tribunal*") yw Tribiwnlys Prisio Cymru, a sefydlir o dan reoliad 4.

(2) Mae'r cyfeiriadau at reoliadau, Rhannau neu Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at reoliadau, Rhannau o'r, neu Atodlenni i'r, Rheoliadau hyn.

(**6**) O.S. 2005/3364 (Cy.261).